## Rhagair Arweinydd y Cyngor

Nod Cyngor Gwynedd ydi gweithio'n barhaus er mwyn gwella'r gwasanaethau rydym yn cynnig i bobl Gwynedd. Mae'n ddyletswydd arnom i adrodd bob ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w gyflawni, a dyma a geir yn y ddog Mae'r adroddiad yn amlinellu yr hyn y mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w gyflav y cynlluniau a thargedau dangosyddion perfformiad a gyflwynwyd fel rhan Blynedd Gwynedd 2008 – 2011. Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi adolygiad 3 Blynedd, sy'n amlinellu'r hyn rydym am ei gyflawni yn ystod 2009/10. Gellir gweld copi ohono ar ein gwefan, www.gwynedd,gov.uk



Mae cyflawni unrhyw welliannau yn wyneb y sefyllfa economaidd heriol a'r ariannol anodd i'r Cyngor wedi golygu gwaith caled gan ystyried ffyrdd nev er mwyn sicrhau llwyddiant.

Hoffwn ddiolch i fy nghyd aelodau a'r staff am eu hymdrechion i sicrhau cynnydd yn erbyn cynlluniau llynedd, ac wrth gynllunio a chyflwyno gwelliannau eleni.

Dyfed Edwards
Arweinydd Cyngor Gwynedd

## Rhagair y Prif Weithredwr



Mae'n eithriadol o bwysig bod cyrff cyhoeddus yn atebol i drigolion am y gwaith yr ydym yn ei gyflawni a bod y darlun hwnnw o berfformiad yn un y medr y trigolion ei weld yn datblygu dros amser. Dyna ddiben y ddogfen hon, sef dangos darlun teg a chywir o berfformiad y Cyngor ar ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2008/09.

Wrth gwrs, rydym yn gweithredu mewn cyfnod anodd i bob corff cyhoeddus ac i gynghorau yn arbennig. Yn ystod 2008/09 rydym wedi gorfod arbed £3.973 miliwn oddi ar ein cyllideb ar adeg pan y mae'r gofynion arnom yn parhau i gynyddu. Yn y cyd-destun hynny, rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ein perfformiad yn ystod 2008/09. Rydym wedi cyflawni neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni 82% o'r gwelliannau a ymrwymwyd iddynt yng Nghynllun Tair Blynedd y Cyngor. Ar yr un pryd, cafwyd ein bod wedi cyfarfod â thargedau'r flwyddyn ar 78% o'n dangosyddion, sydd yn dangos gwelliant ar y ddwy flynedd flaenorol.

Dim ond trwy waith caled ac ymroddedig cynghorwyr a swyddogion ar bob lefel ar draws y Cyngor y bu perfformiad fel hyn yn bosib. Mae wedi bod yn anodd ac mae'n debygol o fod yn anoddach dros y blynyddoedd nesaf ond mae g Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd mewn cyd-destun yn deyrnged i'r Cyngor cyfan.

Harry Thomas
Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd

# CYNLLUN GWELLA GWYNEDD 2009

## Adroddiad ar Gyrhaeddiad 2008/09

## Cynnwys


| Rhan | Teitl | Tudalen |
|---|---|---|
| A | Cyflwyniad | 3 |
| B | Crynodeb o Berfformiad 2008/09 | 5 |
| Atodiad 1 | Cerdyn Cytbwys Corfforaethol 2008/09 – Prif Faterion | 17 |
| Atodiad 2 | Cerdyn Cytbwys Corfforaethol 2008/09 – Dangosyddion Allweddol | 34 |
| Atodiad 3 | Dangosyddion Statudol - Adroddiad ar Berfformiad Terfynol 2008/09 | 38 |

# A. CYFLWYNIAD

Mabwysiadwyd Cynllun Strategol Tair Blynedd ar gyfer Gwynedd am y cyfnod 2008/09 – 2010/11.  Cyhoeddwyd adolygiad o'r cynllun yn Ebrill 2009, oedd yn cynnwys manylion am gynlluniau y mae'r Cyngor am geisio eu cyflawni yn ystod 2009/10.  Mae'r cynllun hwnnw yn nodi prif flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella ei wasanaethau.


Y mae'r Cynllun yn ddolen gyswllt bwysig rhwng cynnwys Strategaeth Gymunedol gyntaf Gwynedd, a chynlluniau busnes y Cyngor ar lefelau amrywiol, o'i Gynlluniau Busnes Gwasanaeth i'w ddangosyddion a'i gynlluniau ar gyfer gwella ar lefel unedau busnes.

## Y cyd-destun Statudol

Cyfeirir at y Cynllun Tair Blynedd fel Rhan 1 o'r Cynllun Gwella, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan Raglen Gwella Cymru.  Yma, cyflwynir ail ran y Cynllun.  Pwrpas yr ail ran yw cynnig trosolwg o berfformiad a chyraeddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol a fu, sef  perfformiad yn ystod 2008/09.

## Y Cyd-destun Strategol yng Ngwynedd

Mae'r diagram isod yn dangos y lefelau, neu'r haenau, o fewn trefn cynllunio busnes y Cyngor, ac yn dangos y berthynas anorfod rhwng cynlluniau'r Cyngor a chynlluniau ei bartneriaid allweddol.




* noder bod y cynlluniau ar y lefel hon ar gael ar safle we'r Cyngor, www.gwynedd.gov.uk

Mae'r cynllun wedi ei strwythuro ar sail  Cerdyn Cytbwys Corfforaethol, sef model sy'n arwain y Cyngor i ymateb i ddisgwyliadau allanol yn ogystal ag anghenion mewnol y Cyngor.

Mae' r Cerdyn Cytbwys Corfforaethol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor, ac wedi ei strwythuro dan 4 amcan y Cyngor sef,

- Amcan 1 – Cymuned Gynaliadwy
- Amcan 2 – Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd
- Amcan 3 – Tegwch a chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus
- Amcan 4 – Ffocws ar drigolion

Caiff hyn ei ddangos yn y gyfres o welliannau a dangosyddion perfformiad sydd wedi'u cynnwys, fesul blaenoriaeth strategol, yn y Cynllun Tair Blynedd.

Dyma adroddiad cyntaf ar gyrhaeddiad y gwelliannau a'r dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun 3 Blynedd. Ceir manylion pellach ar dudalennau 5 a 14, gyda manylion llawn yn yr atodiadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y cynnwys, cysylltwch â'r Adran Strategol a Gwella, ar 01286 679052 (e-bost: ymholiadau@gwynedd.gov.uk).

Am gopi o'r ddogfen mewn iaith arall neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni drwy'r manylion uchod.

# B. CRYNODEB O BERFFORMIAD 2008/09

Fel a nodwyd eisoes, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull y 'Cerdyn Cytbwys' ar gyfer adrodd ar berfformiad yn erbyn ei Flaenoriaethau Strategol a'i ddangosyddion allweddol. Mae'r dull hwn yn rhoi crynodeb o berfformiad yn erbyn agweddau allanol, sef 'Cymuned Gynaliadwy', 'Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus' a 'Ffocws ar drigolion', ac agweddau mewnol sef 'Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd'. Y bwriad yw ceisio pwyso a mesur:

- A yw'r Cyngor yn cwrdd â gofynion budd-ddeiliaid allanol, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'r sefydliadau sy'n llywodraethu a rheoleiddio ei waith e.e. Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru?
- A yw'r Cyngor yn datblygu ei drefniadaeth fewnol ac yn rheoli ei adnoddau mewn modd effeithiol, er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau mewnol angenrheidiol ar gyfer cwrdd â'r gofynion allanol yn gadarn?

Lluniwyd y Cerdyn Cytbwys o'r newydd ar gyfer y cyfnod 2008/09 – 2010/11. Gellir gweld manylion am y cyrhaeddiad yn 2008/09 isod.

## Cerdyn Cytbwys Corfforaethol – Gwelliannau i ymateb i Flaenoriaethau Strategol 2008/09

Gweler isod ddadansoddiad o berfformiad y Cyngor ar gyfer 2008/09. Mae'r dadansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn y gwelliannau / cynlluniau a raglennwyd i'w cwblhau yn ystod 2008/09. Er mwyn hwyluso i'r darllennydd, mae pob amcan wedi ei rhannu i Flaenoriaethau Strategol, gyda phob Blaenoriaeth Strategol yn gasgliad o welliannau neu gynlluniau.

Adroddir ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w gyflawni mewn dwy ffordd –

a) tabl yn cynnwys disgrifiad naratif o'r prif lwyddiannau a fu yn ystod 2008/09
b) tabl yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd mewn ffigurau

## a) Disgrifiad byr o gyrhaeddiad yn ystod 2008/09

| **Amcan 1** | **Cymuned Gynaliadwy** |
|---|---|
| **Economi Gwynedd**<br><br>*Hyrwyddo datblygiadau economaidd a gwasgaru twf ar draws y Sir* | Llwyddwyd i ddatblygu a chyflawni nifer o brosiectau economaidd gwahanol. Manteisiwyd ar arian Cyd-gyferiant a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Rhoddwyd sylw cychwynol i'r Strategaeth Ddatblygu newydd ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru – strategaeth fydd yn sail ar gyfer cynlluniau strategol newydd i Wynedd dros y blynyddoedd nesaf<br><br>Yn ogystal, arwyddwyd cytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor a'r Brifysgol ym Mangor er mwyn hyrwyddo cydweithio agosach, yn enwedig wrth ddatblygu sectorau gwerth uchel yn yr economi lleol. Yn ogystal, cytunwyd ar raglen i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r cyfleon gwaith sydd ar gael yn lleol. |
| **Cyflenwad Tai**<br><br>*Mae sicrhau cyflenwad addas o dai er mwyn galluogi pobl i aros yn eu cymunedau yn flaenoriaeth* | Y prif lwyddiannau o dan y flaenoriaeth yma oedd cynnal pleidlais i denantiaid tai Cyngor Gwynedd ar ddyfodol y stoc tai. Pleidleisiodd mwyafrif sylweddol (72%), i'r cynnig i drosglwyddo'r stoc i Gartrefi Cymunedol Gwynedd. Yn ogystal, llwyddwyd i ddychwelyd 28 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Roedd hyn yn uwch na'r targed gwreiddiol o 20. O ran tai fforddiadwy, sicrhawyd fod 25.67% o dai a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn rhai fforddiadwy, sy'n cyfateb i 42 uned.<br><br>Oherwydd gofynion deddfwriaethol a threfniadaethol, ni lwyddwyd i fabwysiadu y Cynllun Datblygu Unedol yn unol â'r targed. Bu llithriad i'r amserlen, ond bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2009. |
| **Plant a Phobl Ifanc**<br><br>*Llunio camau penodol i'w cymeryd er mwyn gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc ar draws y sir* | Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y maes yma dros y flwyddyn, gyda'r strategaeth ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor. Bydd hyn yn gosod sail gadarn i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd o fewn gwahanol ddalgylchoedd y Sir. Yn ogystal, llwyddwyd i roi cynllun newydd at ei gilydd i adolygu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Ngwynedd a Môn – gan ymateb yn llawn i ofynion rhaglen "Trawsnewid" y Cynulliad.<br><br>Yn ychwanegol at hyn, paratowyd Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Gwynedd – dyma'r Cynllun cyntaf o'i fath ar gyfer y Sir sy'n adnabod blaenoriaethau clir ar gyfer hyrwyddo lles a chyfleoedd i blant a phobl ifanc Gwynedd. |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau**<br><br>*Sicrhau datblygu a hyfforddi er mwyn darparu'r math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleon a gofynion yn y farchnad lafur* | Bu cryn ddatblygiadau dan y flaenoriaeth yma, gyda gwaith yn digwydd i roi Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth at ei gilydd ar y cyd efo Môn, adolygiad yn cymeryd lle o drefniadau hyfforddiant yn y gweithle, a llwybrau dysgu newydd a chreadigol yn cael eu rhoi mewn lle i arfogi pobl ifanc gyda'r math cywir o sgiliau – a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd yn y farchnad lafur lleol ac yn ateb gofynion y farchnad lafur leol.<br>Llwyddwyd hefyd i gael adnoddau er mwyn datblygu gwedd newydd o gynllun Llwyddo'n Lleol – cynllun sy'n bodoli ers rhai blynyddoedd yng Ngwynedd ac yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod mentergarwch yn cael ei hyrwyddo ymysg plant a phobl ifanc. |
| **Pobl Ifainc a Theuluoedd**<br><br>*Mae'n bwysig iawn i ardal wledig fel Gwynedd wneud y gorau y gallant i ddenu pobl ifanc a theuluoedd yn ôl i'r Sir* | Yn sgil y dirwasgiad economaidd addaswyd y cynlluniau gwreiddiol o dan y flaenoriaeth strategol yma. Prif bwyslais y gwaith a gyflawnwyd oedd cydweithio gyda'r sector breifat er mwyn ymateb i'r dirwasgiad. Gwelwyd nifer o gynlluniau yn cael eu cyd-gynllunio gyda'r sector breifat er mwyn hwyluso llif-arian i fusnesau'r sir ac i greu amodau ffafriol iddynt barhau i fuddsoddi yng Ngwynedd.<br><br>Yn ogystal, llwyddwyd i gyflwyno cais am arian Cyd-gyfeiriant er mwyn denu arian Ewropeaidd i ariannu ymgyrchoedd i ddenu pobl a theuluoedd ifanc yn ol i'r Sir. |
| **Yr Iaith Gymraeg**<br><br>*Gyda chanran uchel iawn o siaradwyr Cymraeg yma yn y sir, mae'r Cyngor yn flaenllaw iawn wrth barhau i warchod a hybu'r iaith Gymraeg*. | Sefydlwyd Siarter Iaith newydd mewn parterniaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, gwelwyd rhaglen weithredol o gynlluniau ymarferol yn cael eu datblygu a'u gweithredu er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Sir – a hynny drwy gydweithio agos gyda'r Asiantaethau sy'n rhan o Grwp Hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r cynlluniau yn amrywiol, megis llunio Pecyn Methodoleg Trosglwyddo Iaith a gweithredu cynllun peilot i ddylanwadu ar 20 mudiad gwirfoddol i ymrwymo i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Hefyd, sefydlwyd rhaglen arleosol er mwyn cymhathu mewnfudwyr yng Ngwynedd. |
| **Newid Hinsawdd**<br><br>*Mae newid i'r hinsawdd yn wynebu pob un ohonom, ac mae'n rhaid i ni ddatblygu cynlluniau i ymateb i a lleihau effaith Newid Hinsawdd* | Gwelwyd cynnydd da wrth geisio lleihau'r gwastraff a anfonir i'w dirlenwi, a gwelwyd cynnydd yn y canran o wastraff dinesig a gaiff ei ailgylchu - bellach yn cyrraedd 19%. Llwyddwyd hefyd i leihau'r allyriant $CO^2$ yn nefnydd adeiladau'r Cyngor o 3%.<br><br>Fodd bynnag, nid ydym wedi llwyddo i gyrraedd y sefyllfa ddelfrydol y bu i ni osod i ni ein hunain o ran cyflawni prosiectau fydd yn arwain at leihau ôl troed ecolegol y sir ac ystyried sut orau i ymateb i effaith newid hinsawdd. Bwriedir canolbwyntio ein hymdrechion yn y maes yma yn ystod 2009/10 er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ymestynol. |

| | |
|---|---|
| **Dyfodol i'r Ardaloedd Gwledig**<br><br>*Mae canran uchel o Wynedd yn ardaloedd gwledig, ac mae cefnogi'r ardaloedd gwledig hyn yn sgil y newidiadau yn y byd o'n cwmpas yn allweddol* | Roedd nifer o gynlluniau amrywiol yn rhan o'r flaenoriaeth strategol yma, a gwelwyd cynnydd da. Derbyniwyd cadarnhad bod cais y Cyngor am adnoddau o Raglen Datblygu Gwledig y Cynulliad wedi bod yn llwyddiannus, gan arwain at fuddsoddiad o £3.2 miliwn yng nghymunedau gwledig y Sir. Rhoddwyd sylw yn ogystal i geisio dylanwadu ar bolisiau cenedlaethol a rhanbarthol, trwy gynnal ymgyrchoedd i sicrhau bod ardaloedd gwledig yn cael tegwch – fel yr ymgyrch mewn perthynas a newidiadau i drefniadau swyddfeydd post ac hefyd y gwaith lobïo i gydnabod ffactorau gweldig wrth ddyrannu cyllidebau o'r Cynulliad.<br><br>Bu i'r Cyngor arwain yn genedlaethol ar faterion sydd o bwys i ardaloedd gwledig mewn nifer o achosion. |
| **Iechyd**<br><br>*Hyrwyddo ffitrwydd, iechyd a'r maes awyr agored* | Gwelwyd cynnydd ym maes hyrwyddo iechyd, ffitrwydd a maeth i ysgolion Gwynedd, gyda rhaglen hyrwyddo wedi ei chreu, a'r ddarpariaeth o fwydlenni iach wedi ei hymestyn i holl ysgolion cynradd Gwynedd.<br><br>Rydym wedi cychwyn ar y gwaith o sefydlu partneriaeth ar lefel strategol ar gyfer hyrwyddo a chyd gynllunio ym maes awyr agored hefyd. Fodd bynnag, bu peth llithro ar rai o gynlluniau y Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol, megis gyda Pwll Nofio Harlech. |

| Amcan 2 | GWELLA'R CYNGOR ER MWYN GWELLA GWYNEDD |
|---|---|
| **Prosesau a Systemau**<br><br>*Mae sicrhau systemau a phrosesau addas a chyfoes, megis cyfundrefn trawsnewid busnes effeithiol a sustem adnoddau dynol/cyflogau cynhwysfawr yn hanfodol os am sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon o fewn y Cyngor.* | Adeiladwyd ar y gwaith y mae'r Uned Trawsnewid Busnes wedi ei wneud, ac mae'r uned yn ennill ei blwyf drwy ail ddylunio prosesau mewn amrywiol feysydd. Rhagwelir y bydd angen naid sylweddol yn y gweithgaredd yma os am weld y math o newid diwylliant y mae ei angen i sicrhau gwir fudd o'r broses. Dyma fydd y flaenoriaeth yn ystod 2009/10.<br><br>Ni fu modd symud mor sydyn gyda datblygiad system adnoddau dynol / cyflogau. Roeddem wedi ceisio cyflawni'r allbwn drwy gydweithio ag eraill, ond yn anffodus ni fu modd perswadio eraill i ymuno â ni. Fodd bynnag, rydym bellach yn sicrhau symud ymlaen drwy gaffael system ar ein pen ein hunain. |
| **Pobl a Diwylliant**<br><br>*Staff Cyngor Gwynedd yw ei brif adnodd, ac felly mae sicrhau y diwylliant cywir (diwylliant "Un Cyngor" positif) yn fewnol ac edrych ar ol ein swyddogion yn hanfodol i sicrhau gwell gwasanaethau i'r cyhoedd.* | Bu cynnydd amrywiol yn y cynlluniau. Llwyddwyd i gytuno a gweithredu y Strwythur tâl newydd, cynhaliwyd arolygon i sicrhau mewnbwn staff ar wahanol agweddau, gyda rhaglenni datblygu yn cael eu ffurfio yn seiliedig ar y canlyniadau. Mae gwaith datblygol yn parhau, megis datblygu system Cynllunio Gweithlu i ymateb i ofynion staffio, datblygu'r fframwaith cyfathrebu mewnol a rhoi trefniadau mewn lle i gydnabod a dathlu llwyddiant.<br><br>Ni welwyd y cynnydd disgwyliedig ym mhob maes, ac mae gwaith yn parhau yn ystod 2009/10. Enghraifft yw'r Prosiect Gweithio'n hyblyg, gyda pheilot yn dechrau ym Mai. Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar wella diwylliant 'Un Cyngor', ond mae gwaith pellach i'w gwblhau. |
| **Arweinyddiaeth a Gweledigaeth**<br><br>*Mae arfogi ein rheolwyr a'n haelodau gwleidyddol gyda'r sgiliau cywir i arwain y Cyngor am arwain at ffocws clir i'n gwaith.* | Gwelwyd datblygiadau ar nifer o wahanol lefelau o dan y flaenoriaeth hon. Sefydlwyd Rhaglen Datblygu Arweinyddion Gwleidyddol, adolygwyd rolau Uwch Reolwyr y Cyngor yn unol â strwythur diwygiedig y Cyngor. Yn ogystal, sicrhawyd adnoddau ychwanegol i Wynedd drwy ffynonellau cenedlaethol ar gyfer rhaglen tair blynedd i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr y Cyngor.<br><br>Yn ychwanegol, llwyddwyd i ddatblygu rhaglen i ddenu talent newydd i'r Cyngor a chreu cyfleoedd cyflogaeth i'r dyfodol, ynghyd â sefydlu system werthuso newydd ar gyfer uwch reolwyr y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| **Y Defnydd o Adnoddau**<br><br>*Mae sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau prin yn y modd mwyaf effeithiol yn fwy hanfodol nag erioed yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Rydym am sicrhau gwerth am arian, sylfaen asedau cynaliadwy a chysylltu adnoddau gyda blaenoriaethau.* | Gwelwyd cynnydd sylweddol gyda'r Cyngor yn sicrhau gwella ein defnydd o adnoddau. Mae gan y Cyngor bellach strategaeth ariannol tymor canolig sy'n cynnwys yr angen i ddarganfod arbedion drwy weithredu'n fwy effeithlon ac hefyd darganfod toriadau yn y lleoedd hynny sy'n cael yr effaith lleiaf ar ein trigolion.<br><br>Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd gyda'r gwaith o greu cynllun rheoli asedau a strategaeth technoleg gwybodaeth ar gyfer yr hir dymor. Rhagwelir y byddant yn weithredol yn ystod hanner cyntaf 2009/10. |

| **Amcan 3** | **TEGWCH A CHYFLEOEDD I BOBL A CHYMUNEDAU BREGUS** |
|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc Bregus**<br><br>*Cyflawni gwelliannau er mwyn diogelu ac ymateb i anghenion y plant a phobl ifanc mwyaf bregus yn ein cymunedau.* | Llwyddwyd i sefydlu a datblygu cynllun tlodi plant yn ardal y Moelwyn fel rhan o gynllun peilot cenedlaethol, gan roi clwb cynilo yn ei le a datblygu sgiliau llythrennedd ac ariannol plant a phobl ifanc yr ardal. Llwyddwyd hefyd i adnabod llwybrau cyfle clir i blant a phobol ifanc mewn gofal o fewn y sir, a rhoddwyd strategaeth ymyrraeth cynnar yn ei lle er mwyn sicrhau cefnogaeth o ansawdd ar eu cyfer.<br><br>Fel rhan o waith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, sefydlwyd tim aml-ddisgyblaethol yn ardal Eifionydd i dreialu trefn newydd o weithio o gwmpas anghenion plant yr ardal. Mae’r cynllun hwn wedi bod yn llwyddiannus, a byddwn yn ymestyn y trefniant newydd i ddalgylchoedd eraill yn ystod 2009/10. |
| **Blaenoriaethu Cymunedau o Angen**<br><br>*Sicrhau cefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig yng Ngwynedd drwy amrywiol gynlluniau i’w cefnogi.* | Cynhaliwyd gwaith ymchwil i adnabod cynlluniau sydd yn debygol o dorri’r cylch amddifadedd o fewn ein cymunedau difreintiedig, ac fe welwyd rhoi cymorth sylweddol i unigolion a grwpiau trwy gynlluniau fel Cymunedau’n Gyntaf a Genesis er mwyn creu gwell amodau yn lleol.<br><br>Yn ogystal, sefydlwyd trefniadau newydd o fewn y Cyngor i gymeryd trosolwg o raglenni a chynlluniau sy’n targedu’r cymunedau o angen, fel eu bod yn cael eu cyd-gynllunio’n effeithiol gan sicrhau y defnydd gorau o adnoddau. Bydd y maes yma yn derbyn rhagor o sylw yn ystod 2009/10. |
| **Gwasanaeth Oedolion Bregus**<br><br>*Sicrhau fod Oedolion sy’n derbyn gofal, a’u gofalwyr, yn derbyn gwasanaethau addas i’w anghenion, gan sicrhau parch ac urddas* | Gwelwyd cynnydd sylweddol gyda’r prosiect ‘Adeiladu i'r Dyfodol’, prosiect sy’n sefydlu darpariaeth addas o lety i gyd-fynd ag anghenion pobl hŷn. Sicrhawyd ffynonellau arian i gynlluniau tai gofal ychwanegol yn y Bala a Ffestiniog. Cychwynnwyd gwaith ar safle Bryn Blodau ym Mlaenau Ffestiniog fydd yn darparu estyniad 10 gwely ychwanegol i unigolion dryslyd eu cof.<br><br>Llwyddwyd hefyd i gynyddu’r nifer o ofalwyr a dderbyniodd asesiadau, cam ymlaen tuag at geisio cynnig gwasanaethau i ymateb i’w gofynion hwythau yn ogystal â’r unigolion y maent yn gofalu amdanynt. Gwelwyd hefyd wella trefniadau’r gwasanaeth i ymateb i achosion dementia a gwella perfformiad wrth ymateb i ofynion y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol Pobl Hŷn. |
| **Sgiliau a Chyfleon**<br><br>*Darparu’r math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleon yn y farchnad lafur* | Sefydlwyd rhaglen o weithgareddau amrywiol i ymateb i’r rhwystrau sy’n atal pobl rhag cael mynediad i fyd gwaith.<br><br>Mae’r cynllun Genesis yn cynnig cyfleoedd i rieni sydd wedi bod allan o waith am gyfnod trwy godi eu hyder ac ail arfogi eu sgiliau i fod yn addas i’r gweithle. Yn ogystal, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae Genesis yn cynorthwyo unigolion sydd wedi colli eu gwaith yn ddiweddar i arfogi eu hunain â sgiliau newydd er mwyn eu cynorthwyo yn ôl i waith mor fuan â phosib. |

| **Amcan 4** | **FFOCWS AR DRIGOLION** |
|---|---|
| **Amgylchedd o Ansawdd**<br><br>Mae arolygon barn y gorffennol wedi dangos fod cael Amgylchedd o Ansawdd yn bwysig i'n trigolion. Rydym am sicrhau gwella'r amgylchedd ffisegol ac adeiledig er budd trigolion. | Gweithredwyd ar gynlluniau i dargedu'r mannau oedd fwyaf angen sylw yn ystod 2008/09 gan gymeryd camau rhagweithiol i osgoi llygredd yn y lle cyntaf. Cynhaliwyd 'blitz' ar y mannau canlynol, Criccieth, y Ffôr, Llanystumdwy, rhan o Gaernarfon, y Felinheli, Llanrug, Abermaw, Aberdyfi a Phenrhyndeudraeth.<br><br>Yn ogystal, gwelwyd symud ymlaen gyda'r cynllun arloesol sy'n ceisio datganoli cyfrifoldebau ym maes yr amgylchedd i gymunedau lleol gyda'r cynllun peilot sydd yn cael ei weithredu yn ardal Penllyn/ Bala. Er na lwyddwyd i gwblhau'r gwaith a ragwelwyd o fewn 2008/09 parheir i adeiladu ar y seiliau cadarn yn ystod 2009/10 a rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau yn fuan yn 2010/11. |
| **Ffocws ar y Cwsmer**<br><br>*Mae ffocws holl wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor ar y cwsmer. Er mwyn hwyluso cyswllt i'r cwsmer, rhaid sicrhau mynediad rhwydd at wasanaethau, cyflawni'r gwasanaethau yn amserol ac i safonau penodol* | Llwyddwyd i gymeryd camau o ran sefydlu cynlluniau fydd yn arwain at well profiad i drigolion Gwynedd wrth geisio cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor.<br><br>Bellach mae'r Ganolfan Gyswllt yn ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau ar gyfer gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Mae hyn yn sicrhau mynediad haws a chynt i'r gwasanaeth a chysondeb ymateb i gwsmeriaid. Bellach, mae'r Ganolfan Gyswllt yn ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau i wasanaethau Gweinyddol hefyd, er y bu peth llithriad yn yr amserlen wreiddiol.<br><br>Mae'r Cyngor mewn sefyllfa nawr i fod yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi digwydd er mwyn sicrhau defnyddio y dulliau mwyaf perthnasol i wella gwasanaethau a chyswllt gyda'r gwasanaethau i'r cwsmer, gan leihau cost ar yr un pryd. |
| **Cyfranogaeth y Gymuned a Dinasyddiaeth**<br><br>*Mae sicrhau cyfranogaeth gan y Gymuned yn hanfodol os am weld llywodraethu effeithiol. Rydym am i ddinasyddion gael y cyfle i ddylanwadu ar y gwasanaethau a gyflwynir.* | Un o'r camau a gymerwyd yn ystod 2008/09 i sicrhau cyfranogaeth gan y Gymuned oedd cynnal arolwg barn ymysg sampl eang o'n dinasyddion. Bydd canlyniadau'r arolwg yn adrodd yn ystod y flwyddyn gyfredol a byddant yn cael eu defnyddio i lywio gweithgareddau'r Cyngor i'r dyfodol. Yn ogystal, llwyddwyd i sefydlu Fforwm Plant a Phobl Ifanc er mwyn sicrhau llais plant a phobl ifanc i'r broses ddemocrataidd.<br><br>Roedd y Cyngor wedi gobeithio cyflawni nifer o gynlluniau gan gynnwys dulliau eraill o sicrhau cyfranogaeth gan y gymuned. Ni lwyddwyd i wneud hynny yn ystod y flwyddyn. Bwriedir gwthio'r gwaith ymlaen yn ystod 2009/10 i ymestyn gweithgaredd yn y maes yma. |

| | |
|---|---|
| **Cludiant**<br><br>*Ein bwriad yw symud i drefn effeithiol integredig ar gyfer cludiant yn y sir* | Yn ystod y flwyddyn bu i Fwrdd y Cyngor benderfynu sefydlu uned cludiant integredig sydd yn gam cychwynnol i wella cydlyniant cludiant ar draws y Cyngor. Bydd hyn yn golygu hwyluso gwelliannau yn y ddarpariaeth cludiant cymunedol.<br><br>Mae cryn waith i'w wneud eto yn y maes, ond mae'r camau cychwynol wedi eu cymeryd yn ystod y flwyddyn diwethaf a gellir adeiladu arnynt yn ystod y flwyddyn hon. |
| **Gwella Gwasanaethau Unigol**<br><br>*Ein bwriad yw mynd i'r afael â meysydd gwasanaeth unigol lle mae'r Cyngor am wneud newid arwyddocaol* | Adnabuwyd nifer o feysydd gwasanaeth unigol ble targedwyd gwelliant penodol yn ystod 2008/09 ac ymysg y llwyddiannau yr oedd<br>• Cynyddu darpariaeth maethu o fewn y sir a chynllunio i leihau costau maethu drwy asiant<br>• Cynnydd yn y canran o fusnesau risg uchel a adolygwyd<br>• Profi ein trefniadau Cynllunio Argyfwng drwy gynnal ymarferiad<br>• Wedi cychwyn adolygiad o drefniadau gweithredol gosod Tai<br>Yn ychwanegol, gwelwyd sefydlu darpariaeth breswyl newydd i blant, gydag agor Cartref Drws y Nant yng Nghaernarfon.<br><br>Mae elfennau sy'n parhau i gael eu targedu ar gyfer gwelliant penodol, ac wedi eu cynnwys o fewn gwelliannau 2009/10 y Cynllun 3 Blynedd. |

## b) tabl yn cofnodi cyrhaeddiad 2008/09

| | Nifer o Welliannau (deilliant) | Gwelliannau sydd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni deilliant y flwyddyn erbyn diwedd Ebrill 2009 ✓✓ neu ✓ | Gwelliannau nad oedd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn erbyn diwedd Ebrill 2008 ✘ |
|---|---|---|---|
| Cymuned Gynaladwy | 51 | 42 (82%) | 9 (18%) |
| Gwella' r Cygnor er mwyn gwella Gwynedd | 25 | 19 (76%) | 6 (24%) |
| Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus | 19 | 17 (89%) | 2 (11%) |
| Ffocws ar drigolion | 31 | 26 (84%) | 5 (16%) |
| Cyfanswm | 126 | 104 (82%) | 22 (18%) |

# Y prif gasgliadau yw:

- Bod 104 (82%) wedi cwrdd â, neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni deilliant y flwyddyn erbyn diwedd 2008/09

- Bod 22 (18%) heb gwrdd â deilliant y flwyddyn (Ar gyfer y rhain, mae esboniad o'r camau gweithredu nesaf)

Mae trefniadau monitro ac adrodd ar welliannau Cynllun 3 Blynedd Cyngor Gwynedd wedi eu haddasu yn ystod y flwyddyn. Yn y gorffennol, byddai'r Cyngor yn adrodd a oedd gwelliant wedi ei gwblhau yn unol â'r deilliant ar gyfer y flwyddyn a'i peidio. Addaswyd y drefn eleni er mwyn cofnodi nid yn unig lle y llwyddwyd i gyflawni deilliant y flwyddyn, ond hefyd, lle y llwyddwyd i wneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni'r deilliant. Penderfynwyd ar y newid hwn er mwyn

- adlewyrchu cynnydd yn erbyn gwelliant/ cynllun yn decach a
- dathlu lle y llwyddwyd i wneud cynnydd sylweddol yn erbyn cynllun neu welliant, er na lwyddwyd i gyflawni'r deilliant yn llawn.

Am y rheswm yma, nid yw cymharu'r perfformiad uchod â pherfformiad y blynyddoedd blaenorol yn rhesymol. Mae manylion llawn i'w gweld yn **Atodiad 1**.

Sylwer, petai'n ofynol i ni addasu'r canlyniadau uchod, er mwyn ein galluogi i gymharu cyrhaeddiad flwyddyn ar flwyddyn, (trwy ddefnyddio'r hen drefn o fonitro, lle na roddwyd unrhyw fath o gydnabyddiaeth i gynnydd oni bai am lwyddiant llawn) yna byddai'r ffigurau fel a ganlyn.

| Blwyddyn | % deilliannau a gyflawnwyd | Nifer deilliannau a |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| | | gyflawnwyd |
| 2007/08 | 63% | 30 |
| 2006/07 | 72% | 42 |

# Cerdyn Cytbwys Corfforaethol – Dangosyddion Allweddol 2008/09

Gweler isod ddadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion allweddol ar gyfer 2008/09.

| | Nifer dangosyddion | Dangosyddion wedi cwrdd â tharged cronnus y flwyddyn ✓✓ | Dangosyddion sydd heb gwrdd â tharged cronnus y flwyddyn ✘ |
|---|---|---|---|
| Cymuned Gynaladwy | 14 | 10 (71%) | 4 (29%) |
| Gwella' r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd | 14 | 12 (86%) | 2 (14%) |
| Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus | 7 | 6 (86%) | 1 (14%) |
| Ffocws ar drigolion | 6 | 4 (67%) | 2 (33%) |
| **Cyfanswm** | 41 | 32 (78%) | 9 (22%) |

Y prif gasgliadau yw:

- Bod 32 (78%) o ddangosyddion y cerdyn cytbwys wedi cwrdd â'u targedau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (31 Mawrth 2008)
- Bod 9 (22%) wedi methu cwrdd â'u targedau cronnus erbyn diwedd y flwyddyn
- Mae hyn yn cymharu â 68% (21) o ddangosyddion cerdyn cytbwys 07/08 oedd wedi cyrraedd neu ragori ar darged cronus y flwyddyn, a 75% (18) yn 2006/07.

Mae'n bwysig i ni nodi yma fod y fasged o ddangosyddion yn y Cerdyn Cytbwys wedi ei addasu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac felly nid ydym yn cymharu cyflawniad ar yr un dangosyddion yn union.

Yn ogystal, mae'n bwysig ystyried faint o'r dangosyddion sydd wedi gwella perfformiad ers y flwyddyn flaenorol  Gweler dadansoddiad llawn yn **Atodiad 2**, lle nodir pa ddangosyddion sydd wedi gwella eu perfformiad o'r flwyddyn flaenorol gyda 🡅, dangosyddion sydd wedi cadw perfformiad yn gyson wedi eu nodi gyda 'r symbol ⇔, a dangosyddion lle mae perfformiad wedi dirywio ers y flwyddyn flaenorol wedi eu nodi gyda 🡇.

| | 🡅 | ⇔ | 🡇 |
|---|---|---|---|
| **Cymuned Gynaladwy** | 7 | 1 | 4 |
| **Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd** | 7 | 2 | 0 |
| **Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus** | 4 | 0 | 2 |
| **Ffocws ar drigolion** | 3 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **21 (66%)** | **4 (13%)** | **7 (22%)** |

| - (methu cymharu) | Is-gyfanswm |
|---|---|
| 2 | 14 |
| 5 | 14 |
| 1 | 7 |
| 1 | 6 |
| **9** | **41** |

Gellir casglu felly bod perfformiad 79% o'r dangosyddion (lle mae'n bosib eu cymharu) wedi gwella neu aros yn gyson rhwng 2007/08 a 2008/09
Mae hyn yn cymharu â'r ffeithiau a ganlyn

Bod 64% o'r dangosyddion cerdyn cytbwys wedi gwella eu perfformiad neu aros yn gyson rhwng 06/07 ac 07/08.

Bod 73% o ddangosyddion y cerdyn cytbwys wedi gwella eu perfformiad neu aros yn gyson rhwng 05/06 ac 06/07.

# Dangosyddion Statudol 2008/09

Mae Cyngor Gwynedd yn pwysleisio mai'r dangosyddion a gesglir fel rhan o'r Cerdyn Cytbwys Corfforaethol yw'r dangosyddion allweddol ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor.  Fodd bynnag, mae'n ofynol i'r Cyngor gasglu ac adrodd ar ddangosyddion statudol sydd wedi eu hadnabod gan Lywodraeth y Cynulliad.  Gellir gweld tabl yn cyflwyno'r wybodaeth yma yn **Atodiad 3**.

## ATODIAD 1

# Cerdyn Cytbwys Corfforaethol 2008/09 – Gwelliannau fesul Blaenoriaeth Strategol

Mae'r tabl isod yn rhestru'r holl welliannau/ cynlluniau oedd wedi eu cynnwys fesul Blaenoriaeth Strategol yng Nghynllun 3 Blynedd 2008/09-2010/11. Noder hefyd symbol ar gyfer y perfformiad ar gyfer y flwyddyn yn y golofn olaf.

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant (Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Economi Gwynedd | GC3 | Byddwn wedi cytuno ar Gynllun Gweithredu i'r Strategaeth Datblygu'r Gogledd-Orllewin fydd yn adnabod rhaglenni a ffrydiau gwaith i ddatblygu'r sectorau twf . | ✓✓ |
| | | GP1 | Byddwn wedi dod i gytundeb ffurfiol â Phrifysgol Bangor gyda threfniadau cydweithio mewn lle i dynnu'r budd o'r Brifysgol i'r economi leol | ✓✓ |
| | | GB1 | Byddwn wedi tynnu busnesau o fewn sectorau twf at ei gilydd ar lefel y Gogledd-Orllewin fel sail iddynt gyd- gynllunio ar gyfer eu datblygiad tymor hir (Blwyddyn 1: eigioneg ac awyr agored) | ✓✓ |
| | | GPS04 | Byddwn wedi darparu fframwaith newydd ar gyfer datblygu safleodd ac eiddo busnes, ac wedi paratoi cynlluniau isadeiledd gwedd 1 er mwyn ymateb i anghenion sectorau twf, gan gynnwys unedau gwaith, cyfleustodau a darpariaeth technoleg gwybodaeth | ✓✓ |
| | | GS10 | Byddwn wedi cytuno rhaglen i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r cyfleon gwaith sydd ar gael yn lleol o fewn y sectorau twf a'r sectorau gwerth uchel yn benodol | ✓✓ |

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant (Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| | | GC7 | Byddwn wedi cychwyn gweithredu cynlluniau Cynllun Datblygu Gwledig a Chydgyfeiriant, datblygu cynhyrchion a gweithgareddau economaidd newydd | ✓✓ |
| | | GS4 | Byddwn yn datblygu rhaglen sgiliau gyda darparwyr fydd yn ymateb i anghenion y sector Adeiladwaith gan roi sylw penodol i ofynion y diwydiant niwcliar a'r rhaglen adnewyddu Tai | ✓✓ |
| | | GC4 | Byddwn wedi ymateb i golli swyddi yn Atomfa Trawsfynydd a'r diwydiannau traddodiadol trwy gytuno Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd | ✓ |
| | | GC1 | Byddwn wedi sefydlu trefn reolaethol newydd, mewn partneriaeth, er mwyn uchafu'r budd i Wynedd o gronfeydd allanol, gan roi sylw penodol i'r Gronfa Cydgyfeiriant | ✓✓ |
| | | GC2 | Byddwn yn dylanwadu er mwyn i'r cynlluniau ariannol mawr rhanbarthol roi sylw teg i Wynedd ac yn unol â'r adnabyddiaeth leol o anghenion y sir | ✓✓ |
| | | GC8 | Byddwn wedi cyflwyno a gwthio'r achos lledaenu "fibre-speed" i ganolfannau a safleoedd allweddol drwy'r sir | ✓✓ |
| 1 | **Cyflenwad Tai (Galluogi pobl i aros yn eu cymunedau trwy** | CGG T7 | Byddwn wedi sicrhau bod 20 o eiddo gwag yn dod yn ôl i ddefnydd, gan sicrhau gwelliant yn yr amgylchedd trwy ddod ag eiddo gwag ac eiddo masnachol yn ôl i ddefnydd | ✓✓ |
| | | PP11 | Bydd Cynllun Datblygu Unedol wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer Ardal Cynllunio Gwynedd | ✗ |

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant<br>(Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| | **ddarparu cyflenwad o dai addas)** | Ymateb wedi ei gytuno yn dilyn asesiad 'x':<br>Wedi methu cyrraedd y targed o fabwysiadu'r CDU erbyn diwedd Mawrth 2009 oherwydd yr angen annisgwyl i orfod gwneud Diwygiadau Arfaethedig Pellach iddo. Os na dderbynnir gwrthwynebiadau arwyddocaol bwriedir adrodd i gyfarfod Bwrdd y Cyngor ym mis Ebrill ac yna i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf, pryd y gofynnir am benderfyniad i fabwysiadu'r CDU fel y cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. I fyny at y cyfnod hynny mae'r CDU yn parhau i fod yn ystyriaeth cynllunio berthnasol y gellir rhoi cryn bwyslais arno ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.<br><br>Diweddariad – ers ysgrifennu'r adroddiad yma mae'r gwelliant yma wedi ei gyflawni | | |
| | | PP12 | Byddwn wedi cymeradwyo Canllaw Cynllunio Atodol Diwygiedig | × |
| | | Ymateb wedi ei gytuno yn dilyn asesiad 'x':<br>Methiant wedi digwydd o ran nad yw'r Canllaw Cynllunio Atodol wedi ei gymeradwyo fel dogfen fabwysiedig derfynol. Mae amserlen mabwysiadu'r Canllaw Cynllunio Atodol yn cyd-redeg gydag amserlen mabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd gan mai canllaw i atodi polisïau'r CDU a fydd ac na ellir mabwysiadu fersiwn terfynol o'r Canllaw hyd nes bod y CDU wedi ei fabwysiadu yn derfynol gan gyfarfod o'r Cyngor llawn.<br><br>Mae'r gwaith o ddatblygu'r Canllaw Cynllunio atodol 'on track' rwan gyda bwriad i adrodd ar ganlyniadau'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus i'r Pwyllgor Amgylchedd ym mis Mehefin 2009. Yn dilyn hynny bwriedir cael cymeradwyaeth Bwrdd y Cyngor i fersiwn terfynol o'r Canllaw ym Medi 2009.<br><br>Diweddariad – ers ysgrifennu'r adroddiad yma mae'r gwelliant yma wedi ei gyflawni | | |
| | | PP9 a 10 | Byddwn wedi sicrhau bod 20% o'r holl unedau tai newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn dai fforddiadwy, gan greu oddeutu 40 o dai fforddiadwy yn y flwyddyn | ✓✓ |
| | | GPPG 11.01 | Byddwn wedi gwneud cynnig ffurfiol (trwy bleidlais) i denantiaid y sir i greu corff annibynnol i dderbyn cyfrifoldeb am y stoc tai a denu i mewn yr adnoddau angenrheidiol i wario ar y stoc | ✓✓ |

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant (Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Plant a Phobl Ifanc (cymryd camau i wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc ar draws y sir) | GWR HE04 | Bydd y Cyngor yn sefydlu Gweithgor Ad-drefnu Ysgolion y Sir i ystyried trefniadau ysgolion cynradd ar gyfer y dyfodol. | ✓✓ |
| | | GWR HE05 | Byddwn yn cynnal cyfnod ymgynghori statudol ar y bwriad i gau dwy ysgol o fewn y Sir | ✓✓ |
| | | GWR HE06 GS1 PPGA 02 | Byddwn yn paratoi'r ffordd ar gyfer gweithredu agweddau o adroddiad Webb mewn perthynas â threfniadaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 | ✓✓ |
| | | GWR HE08 | Byddwn wedi cynnal ymchwil trylwyr fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer darparu Cynllun Gweithredu i ymateb i ofynion sgiliau sylfaenol ymysg plant a phobl ifanc | ✓✓ |
| | | PPGA 04 | Byddwn wedi sefydlu Cynllun Plant a Phobl Ifanc aml asiantaethol gyda cynllun gweithredu clir yn ei le | ✓✓ |
| 1 | Sgiliau (darparu'r math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleon yn y farchnad lafur) | GS2 | Byddwn wedi datblygu cynigion ar gyfer llunio trefn leol o gomisiynu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl 16 ar raddfa Gwynedd a Môn ar y cyd a phartneriaid allweddol, ac adnabod strwythur gweithredu fydd yn rhoi sylw i anghenion y farchnad lafur yng Ngwynedd | ✓✓ |
| | | GWR HE01 | Byddwn yn cryfhau llwybrau dysgu galwedigaethol a dynodi llwybrau dysgu 14-19 ar gyfer sectorau penodol gan gynnwys adeiladwaith a gofal | ✓✓ |
| | | GWR HE02 | Byddwn wedi sicrhau bod y llwybrau dysgu a 'r llwybrau mentro yn cael eu cymhwyso ar gyfer eu defnyddio gyda phob ystod gallu, yr ifainc sydd wedi eu dadrithio a'r economaidd anweithredol | ✓ |

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant (Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| | | GS3 | Bydd Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor a Gwynedd ar y Cyd, ynghyd â threfniadau rheolaethol ar gyfer gweithredu'r rhaglen waith | ✓✓ |
| | | GS6 | Byddwn wedi datblygu gwedd newydd Llwyddo'n Lleol o dan Cydgyfeiriant a'r Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn datblygu ymhellach sgiliau mentergarwch pobl ifanc, gan sicrhau statws i Wynedd fel "Lle Da i Fentro" | ✓✓ |
| | | GS5 | Byddwn wedi adnabod pecynnau ariannol ar gyfer sefydlu Canolfan Alwedigaethol yn Ne Gwynedd | ✓✓ |
| 1 | Pobl Ifainc a Theuluoedd (denu pobl ifanc a theuluoedd yn ôl i'r Sir) | GS7 | Byddwn wedi adnabod a thargedu pobl ifanc o Wynedd sydd yn byw a gweithio tu allan i'r Sir er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o gyfleon, cyflogaeth a datblygu gyrfa yn yr ardal | ✗ |
| | | | Ymateb wedi ei gytuno yn dilyn asesiad 'x':<br>Mae'r gwaith hwn wedi ei ail-raglennu fel rhan o gais cydgyfeiriant dros gyfnod o amser – golyga hyn y bydd rhaid paratoi nifer o achosion busnes gan dargedu ,yn benodol, y Gronfa Cydgyfeiriant | |
| | | GS8 | Byddwn wedi sefydlu rhaglen waith o ymgyrchoedd a gweithgareddau eraill | ✗ |
| | | | Ymateb wedi ei gytuno yn dilyn asesiad 'x':<br>Mae'r gwaith hwn wedi ei ail-raglennu fel rhan o gais cydgyfeiriant dros gyfnod o amser – golyga hyn y bydd rhaid paratoi nifer o achosion busnes gan dargedu ,yn benodol, y Gronfa Cydgyfeiriant | |
| 1 | Yr Iaith Gymraeg (parhau i | PPGA 21 | Byddwn wedi paratoi Cynllun Cymhathu mewnfudwyr wedi ei seilio ar brosiectau arfer dda ac i'w gweithredu o 2009 ymlaen | ✓✓ |

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant (Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| | warchod a hybu'r iaith Gymraeg) | PPGA 19 | Byddwn wedi adeiladu ar Arolwg Iaith gan lunio Cynllun Gweithredu Strategaeth Iaith Sir Gwynedd a pharatoi rhaglen waith ar gyfer tair blynedd | ✓✓ |
| | | PPGA 20 | Byddwn wedi sefydlu Siarter Iaith i Wynedd mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill y Sir | ✓✓ |
| 1 | Newid Hinsawdd (Datblygu cynlluniau i ymateb i a lleihau effaith Newid Hinsawdd) | PP2 | Byddwn wedi cynnal adolygiad yn ardal Pwllheli ar y cyd a phartneriaid i adnabod camau fydd angen eu cymryd i leihau ar effaith llifogydd fydd yn cynyddu oherwydd newid hinsawdd.<br><br>Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i sefydlu teclyn asesu effaith<br>Byddwn wedi cyflawni yn 2008/09:<br>1. Paratoi Cynllun Ymgynghori<br>2. Cyflwyno Papur Gwaith Economaidd Gymdeithasol fydd yn edrych ar effaith newid hinsawdd<br>3. Cyflwyno Papur Gwaith Codi Ymwybyddiaeth Cymunedau | ✓✓ |
| | | (PB15 a PB16) | Byddwn wedi sefydlu trefniadau arbennig drwy Wynedd ar gyfer casglu gwastraff cegin a gardd, gyda'r gwastraff hwnnw yn cael ei gompostio mewn dau safle pwrpasol | × |
